

RHEOLAU SEFYDLOG

Cyfarfodydd	2
Y Cyfarfod Blynyddol Statudol	2
Cyfarfod Arbennig y Cyngor	2
Cadeirydd y Cyfarfod	2
Swyddog Priodol	2
Hyd Cyfarfod	3
Cworwm y Cyngor	3
Pleidleisio	3
Trefn Busnes	3
Busnes Brys	5
Penderfyniadau a Gynigir ar Hysbysiad	5
Penderfyniadau a Gynigir heb Hysbysiad	6
Cwestiynau	7
Rheolau Dadl	7
Cau	8
Ymddygiad Afreolus	9
Hawl i Ateb	9
Newid Penderfyniad	9
Diddymu Penderfyniad Blaenorol	9
Pleidleisio ar Benodiadau	10
Trafodaethau a Phenderfyniadau sy'n effeithio ar weithwyr y Cyngor	10
Penderfyniadau ar Wariant	10
Gwariant	10
Selio Dogfennau	10
Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau	10
Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor	11
Is-bwyllgorau	11
Pwyllgorau Cynghori	11
Pleidleisio mewn Pwyllgorau	12
Presenoldeb Pobl Heblaw Aelodau Pwyllgor mewn Cyfarfodydd Pwyllgor	12
Cyfrifon a Datganiad Ariannol	12
Buddiannau	12
Canfasio aelodau ac Argymhellion gan aelodau	13
Archwilio Dogfennau	13
Gweithgareddau Anawdurdodedig	13
Derbyn y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfodydd	13
Busnes Cyfrinachol	14
Ceisiadau Cynllunio	14
Materion Ariannol	14
Rheol Sefydlog ar Gontractau	15
Cod Ymddygiad	15
Amrywio, Dirymu a Gohirio Rheolau Sefydlog	15

Cyfarfodydd

1. a) Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar y dyddiadau a'r amseroedd ac mewn lleoliad a benderfynir gan y Cyngor.

b) Saesneg fydd yr iaith a ddefnyddir yng nghyfarfodydd y Cyngor, ond caiff Aelod siarad yn Gymraeg ar yr amod bod cyfieithiad fesul brawddeg ar gael. Bydd yr Aelod naill ai'n darparu'r cyfieithiad ei hun neu'n rhoi rhybudd o 10 diwrnod clir i Clerc y Dref ei fod yn bwriadu siarad yn Gymraeg fel y gellir trefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.

c) Bydd gohebiaeth a geir yn Gymraeg yn cael ei chyfieithu i'r Saesneg er mwyn ei thrafod.

Y Cyfarfod Blynyddol Statudol

2. a) **Mewn blwyddyn etholiad caiff y Cyfarfod Blynyddol ei gynnal ar neu ymhen 14 diwrnod o'r diwrnod y mae'r cynghorwyr etholedig yn dechrau swydd ac**

b) **Mewn blwyddyn heb etholiad caiff y Cyfarfod Blynyddol ei gynnal ar y dydd Gwener olaf, neu ddiwrnod arall ym mis Mai a benderfynir gan y Cyngor.**

Cyfarfod Arbennig y Cyngor

3. Caiff y Maer alw Cyfarfodydd Arbennig i drafod dim ond yr eitemau a nodir yn yr alwad i'r cyfarfod ar unrhyw adeg, naill ai:
 - a) ar ei fenter ei hun oherwydd natur frys y mater neu
 - b) ar gais ysgrifenedig 5 Aelod, y mae'n rhaid iddynt nodi yn y cais hwnnw y rheswm am alw'r cyfarfod, a'r mater(ion) i'w trafod neu
 - c) drwy benderfyniad Cyfarfod Arferol o'r Cyngor, i ystyried mater, neu faterion, penodol sy'n codi yn y cyfarfod hwnnw.

Cadeirydd Cyfarfod y Cyngor

4. **Caiff y sawl sy'n llywyddu mewn cyfarfod Cyngor arfer holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd mewn perthynas â chynnal y cyfarfod. Y Cadeirydd fydd y sawl a etholwyd yn Faer, neu'r Dirprwy Faer yn absenoldeb y Maer neu, yn ei absenoldeb yntau, rhywun arall a ddewisir gan y Cynghorwyr hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod.**

Swyddog Priodol

5. Os yw statud, rheoliad neu orchymyn yn cyflwyno swyddogaeth neu ddyletswyddau i 'swyddog priodol' y Cyngor, y swyddog hwn fydd Clerc y Dref oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall. Yn benodol, Clerc y Dref fydd y 'swyddog priodol' yn yr

achosion canlynol,

- I gael penderfyniadau derbyn swydd.
- I dderbyn a chofnodi hysbysiadau'n datgelu budd mewn cyfarfodydd
- I dderbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
- I lofnodi hysbysiadau neu ddogfennau eraill ar ran y Cyngor.
- I gael copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod lleol arall.
- I ardystio copïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor.
- I lofnodi a chyhoeddi'r alwad i fynychu cyfarfodydd y Cyngor.
- I gadw cofnodion priodol ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor.

Hyd Cyfarfodydd

6. Ni chaiff gyfarfod Cyngor bara mwy na 2 awr heb egwyl.

Cworwm y Cyngor

7. **Bydd tri aelod neu un rhan o dair o aelodaeth y Cyngor, p'un bynnag yw'r mwyaf, yn golygu cworwm yng nghyfarfodydd y Cyngor.**
8. Os nad yw cworwm yn bresennol neu os bydd nifer y cynghorwyr sy'n bresennol mewn cyfarfod (heb gyfrif y rheini a ataliwyd drwy reswm ddatgan budd) yn syrthio islaw'r cworwm gofynnol, caiff y cyfarfod ei ohirio a bydd unrhyw fusnes heb ei drafod yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf neu ar ddiwrnod arall a benderfynir gan y Maer.

Pleidleisio

9. Bydd Aelodau'n pleidleisio drwy godi llaw neu, os bydd o leiaf dau aelod yn gofyn am hynny, drwy bleidlais gudd.
10. **Os bydd aelod yn gofyn am hyn, bydd y Clerc yn cofnodi enwau'r aelodau a bleidleisiodd ar unrhyw gwestiwn er mwyn dangos a oeddent wedi pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn. Rhaid gwneud cais felly cyn symud ymlaen i'r busnes nesaf. Os gofynnir am gofnodi pleidlais, dim ond drwy godi llaw y pleidleisir.**
11. **(a) Yn amodol ar (b) a (c) isod caiff y Cadeirydd roi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater a roddwyd i bleidlais, ac os bydd pleidleisiau'n gyfartal caiff roi pleidlais fwrw ni waeth a roes bleidlais wreiddiol neu beidio.**
- (b) Pe buasai'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod blynyddol wedi peidio â bod yn aelod o'r cyngor ond am y darpariaethau statudol sy'n diogelu aelodaeth y Cadeirydd ac Is-gadeirydd nes diwedd cyfnod eu swydd, ni chaiff roi pleidlais wreiddiol mewn etholiad am Gadeirydd.**
- (c) Mae'n rhaid i'r sawl sy'n llywyddu roi pleidlais fwrw pryd bynnag y bo'r pleidleisiau'n gyfartal mewn etholiad am Gadeirydd.**

Trefn Busnes

12. **Ym mhob Cyfarfod Cyngor Blynyddol, y busnes cyntaf fydd:**
- a) Ethol Maer
 - b) Cael datganiad derbyn swydd y Maer neu, os na chaiff ei roi bryd hynny, penderfynu pryd y caiff ei roi.
 - c) Ethol Dirprwy Faer
 - d) **Ym mlwyddyn arferol etholiad y Cyngor, llenwi unrhyw swyddi gwag sydd heb ei llenwi yn yr etholiad drwy reswm enwebiadau annigonol.**
 - e) Penderfynu pryd y derbynnir unrhyw ddatganiadau derbyn swydd na chawsant eu derbyn fel yr amodir gan y gyfraith.
 - f) Penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol.
 - g) Penodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau.
 - h) Ystyried talu unrhyw danysgrifiadau sydd i'w talu'n flynyddol.
 - i) Arolygu unrhyw weithredoedd a buddsoddiadau ymddiriedolaeth yng ngofal y Cyngor ac
- wedyn bydd yn dilyn y drefn a nodir yn Rheol Sefydlog 15
13. **Ym mhob cyfarfod heblaw'r Cyfarfod Cyngor Blynyddol, y busnes cyntaf fydd penodi Cadeirydd os yw'r Maer a'r Dirprwy Faer yn absennol a chael datganiadau derbyn swydd felly (os o gwbl) ac ymrwymiad i ddilyn cod ymddygiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y gyfraith i'w wneud neu, os na fyddant yn cael eu rhoi bryd hynny, penderfynu pryd y byddant yn cael eu rhoi.**
14. Ym mhob blwyddyn, heb fod yn hwyrach na'r cyfarfod sy'n penderfynu'r amcangyfrifon cyllideb am y flwyddyn nesaf, bydd y Cyngor yn adolygu tâl ac amodau gwasanaeth gweithwyr presennol. Mae'n rhaid darllen Rheol Sefydlog 38 mewn cydweithrediad â'r gofyniad hwn.
15. Ar ôl i'r busnes cyntaf gael ei gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 12, bydd trefn y busnes, oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall ar sail brys, fel a ganlyn:
- a) Darllen ac ystyried Cofnodion y Cyngor; cyhyd â bod copi wedi'i gylchredeg i bob aelod heb fod yn hwyrach na dyddiad cyhoeddi'r alwad i fynychu'r cyfarfod, ceir ystyried bod y Cofnodion wedi'u darllen.
 - b) **Ar ôl eu hystyried cymeradwyo llofnod y Cofnodion gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.**

c) Ymdrin â busnes y mae statud yn gofyn yn glir iddo gael ei wneud.

d) Gwaredu busnes, os o gwbl, sydd dros ben o'r cyfarfod diwethaf.

e) Cael cyfathrebiadau o'r fath y gallai'r Cadeirydd ddymuno eu gosod gerbron y Cyngor.

f) Ateb cwestiynau gan Gyngorwyr.

g) Cael ac ystyried adroddiadau a chofnodion pwyllgorau.

h) Cael ac ystyried adroddiadau gan swyddogion y Cyngor.

i) Ystyried hysbysiadau o gynnig

j) Awdurdodi selio dogfennau.

k) Os oes angen, awdurdodi llofnodi gorchmynion am dâl.

l) Unrhyw fusnes arall a nodir yn yr alwad.

Busnes Brys

16. Caiff cynnig i amrywio trefn y busnes ar sail brys:

a) Ei chynnig gan y Cadeirydd neu gan unrhyw aelod ac, os caiff ei gynnig gan y Cadeirydd, gellir ei roi i bleidlais heb gael ei eilio, a

b) Caiff ei roi i'r bleidlais heb drafodaeth.

Penderfyniadau a Gynigir ar Hysbysiad

17. Heblaw fel yr amodir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cynnig unrhyw benderfyniad oni roddwyd y busnes y mae'n gysylltiedig ag ef ar yr Agenda gan y Clerc neu oni fydd y cynigydd wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i delerau a hysbysu'r Clerc o leiaf deg (10) diwrnod clir cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

18. Bydd y Clerc yn dyddio pob hysbysiad o benderfyniad neu argymhelliad pan fydd yn ei dderbyn, yn rhifo pob hysbysiad yn y drefn y'i cafodd ac yn ei nodi mewn llyfr a fydd yn agored i bob aelod o'r Cyngor ei ddarllen.

19. Bydd y Clerc yn gosod yn yr alwad i bob cyfarfod bob hysbysiad o gynnig neu argymhelliad a roddwyd yn briodol yn y drefn y'u cafwyd oni bai bod yr aelod sy'n rhoi hysbysiad o gynnig wedi nodi'n ysgrifenedig ei fod yn bwriadu cynnig mewn rhyw gyfarfod diweddarach neu ei fod yn ei dynnu'n ôl.

20. Os na chaiff penderfyniad neu argymhelliad a nodir yn yr alwad ei gynnig naill ai gan yr aelod a roes hysbysiad ohono neu gan unrhyw aelod arall, bydd yn cael ei drin,

oni fydd y Cyngor yn ei ohirio, fel petai wedi'i dynnu'n ôl ac ni chaiff ei gynnig heb hysbysiad newydd.

21. Os bydd testun penderfyniad yn perthyn i faes un o bwyllgorau'r Cyngor, caiff ei gyfeirio heb drafodaeth, pan gaiff ei gynnig a'i eilio, at bwyllgor felly neu ba bynnag bwyllgor arall y caiff y Cyngor ei bennu am adroddiad; ar yr amod bod y Cadeirydd, os yw'n ystyried ei fod yn fater brys, yn caniatáu iddo gael sylw yn y cyfarfod y'i cynigiwyd ynddo.
22. Bydd pob penderfyniad neu argymhelliad yn berthnasol i ryw bwnc y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswyddau drosto, sy'n effeithio ar ei ardal.

Penderfyniadau a Gynigir heb Hysbysiad

23. Ceir cynnig penderfyniadau sy'n ymdrin â'r materion canlynol heb hysbysiad:
 - a) Penodi Cadeirydd y cyfarfod.
 - b) Cywiro'r Cofnodion.
 - c) Cymeradwyo'r Cofnodion.
 - d) Newid trefn y busnes.
 - e) Symud ymlaen i'r busnes nesaf.
 - f) Cau neu ohirio'r ddatl.
 - g) Cyfeirio mater at bwyllgor.
 - h) Penodi pwyllgor neu unrhyw aelodau pwyllgor.
 - i) Mabwysiadu adroddiad.
 - j) Awdurdodi selio dogfennau.
 - k) Gwella cynnig.
 - l) Rhoi caniatâd i dynnu penderfyniad neu welliant yn ôl.
 - m) Ymestyn y terfyn amser ar gyfer areithiau.
 - n) Gwahardd y wasg a'r cyhoedd. (gweler Rheol Sefydlog 63 isod)
 - o) Distewi neu ddiarddel o'r cyfarfod aelod a enwyd am gamymddygiad. (gweler Rheol Sefydlog 33 isod)
 - p) Rhoi caniatâd y Cyngor lle bo gofyn caniatâd felly gan y Rheolau Sefydlog hyn.

q) Gohirio unrhyw Reol Sefydlog. (gweler Rheol Sefydlog 73 isod)

r) Gohirio'r cyfarfod.

Cwestiynau

24. Caiff aelod ofyn i'r Maer neu weithiwr unrhyw gwestiwn ynghylch busnes y Cyngor.
25. Ni ofynnir unrhyw gwestiynau nad ydynt yn gysylltiedig â'r busnes dan sylw heblaw yn ystod y rhan o'r cyfarfod a neilltuir ar gyfer cwestiynau.
26. Bydd pob cwestiwn yn cael ei roi a'i ateb heb drafodaeth.
27. Caiff person y gofynnwyd cwestiwn iddo wrthod ateb.

Rheolau Dadl

28. Ni thrafodir y Cofnodion o gwbl heblaw trafod eu cywirdeb. Caiff cywiriadau eu gwneud i'r Cofnodion drwy benderfyniad a rhaid i'r Cadeirydd nodi llythrennau blaen ei enw arnynt.
29.
 - a) Ni thrafodir penderfyniad na gwelliant oni chafodd ei gynnig a'i eilio, ac, oni roddwyd hysbysiad priodol eisoes, bydd yn cael ei nodi'n ysgrifenedig, os bydd y Cadeirydd yn gofyn, a'i roi iddo cyn ei drafod ymhellach na'i roi gerbron y cyfarfod.
 - b) Wrth eilio penderfyniad neu welliant, caiff aelod gadw ei araith hyd nes yn ddiweddarach yn y ddadl, os yw'n datgan ei fwriad i wneud hynny ar y pryd.
 - c) Bydd aelod yn cyfeirio ei araith at gwestiwn dan sylw neu at eglurhad personol neu gwestiwn o drefn.
 - d) Ni fydd unrhyw araith yn hirach na thair (3) munud heblaw drwy ganiatâd y Cyngor.
 - e) Bydd gwelliant naill ai'n:
 - i) Hepgor geiriau.
 - ii) Hepgor geiriau a gosod eraill i mewn.
 - iii) Gosod geiriau i mewn neu eu hychwanegu.
 - f) Ni fydd gwelliant yn negyddu'r penderfyniad gerbron y Cyngor.
 - g) Os caiff gwelliant ei dderbyn, bydd y penderfyniad, fel y'i diwygiwyd, yn cymryd lle'r penderfyniad gwreiddiol a hwnnw wedyn fydd y penderfyniad y ceir cynnig unrhyw welliant pellach yn seiliedig arno.
 - h) Ni chaiff gwelliant pellach ei gynnig nes bod y Cyngor wedi gwaredu pob gwelliant arall a gynigiwyd yn flaenorol.

i) Bydd gan y sawl a gynigiodd benderfyniad neu welliant yr hawl i ateb, heb fod yn hirach na thair (3) munud.

j) Ni chaiff aelod, heblaw'r sawl a gynigiodd benderfyniad, siarad fwy nag unwaith, heb ganiatâd y Cyngor, am unrhyw benderfyniad heblaw i gynnig gwelliant neu welliant pellach, neu ar welliant, neu ar bwynt trefn, neu mewn eglurhad personol, neu i gynnig cau.

k) Caiff aelod siarad am bwynt trefn neu eglurhad personol. Bydd aelod sy'n siarad at y dibenion hyn yn cael ei glywed yn ddi-oed. Bydd eglurhad personol yn cael ei gyfyngu i ryw ddeunydd sy'n rhan o araith flaenorol ganddo a gamddeallwyd efallai.

l) Caiff cynnig neu welliant gael ei dynnu'n ôl gan y cynigydd gyda chaniatâd y Cyngor, a gaiff ei arwyddo heb drafodaeth, ac ni chaiff unrhyw aelod siarad amdano ar ôl gofyn caniatâd i'w dynnu'n ôl oni wrthodwyd caniatâd o'r fath.

m) Pan ddadleuir ynghylch penderfyniad, ni chynigir unrhyw benderfyniad arall heblaw'r canlynol: -

- i. Gwella'r penderfyniad.
- ii. Symud ymlaen i'r busnes nesaf.
- iii. Gohirio'r ddadl.
- iv. Bod y cwestiwn yn cael ei roi yn awr.
- v. Na fydd aelod a enwyd yn cael ei glywed mwyach.
- vi. Bod aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod.
- vii. Cyfeirio'r penderfyniad at bwyllgor.
- viii. Gwahardd y cyhoedd a/neu'r wasg.
- ix. Gohirio'r cyfarfod.

30. Bydd aelod yn aros yn ei sedd wrth siarad oni fydd y Cadeirydd yn gofyn iddo sefyll.

31. a) Ni fydd dyfarniad y Cadeirydd am bwynt trefn neu dderbynioldeb eglurhad personol yn cael ei drafod.

b) Bydd Aelodau'n annerch y Cadeirydd.

c) Os bydd dau neu fwy aelod yn dymuno siarad, bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar bwy i alw.

d) Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn siarad yn ystod dadl, bydd pob aelod arall yn ddistaw.

Cau

32. Ar ddiwedd unrhyw araith caiff aelod, heb sylw, gynnig "bod y cwestiwn yn cael ei roi yn awr", "bod y ddadl yn cael ei gohirio yn awr" neu "bod y Cyngor yn gohirio yn awr". Os caiff cynnig o'r fath ei eilio, bydd y Cadeirydd yn gosod y cynnig ond, yn

achos cynnig "bod y cwestiwn yn cael ei roi yn awr", dim ond os yw'n cytuno bod y cwestiwn gerbron y Cyngor wedi'i ddadlau'n ddigonol. Os derbynnir y cynnig "bod y cwestiwn yn cael ei roi yn awr" ei dderbyn, bydd yn galw ar y cynigydd i arfer neu ildio ei hawl i ateb ac yn rhoi'r cwestiwn yn syth ar ôl i'r hawl hwnnw gael ei arfer neu ildio. Os caiff y ddadl neu'r Cyngor ei ohirio, ni fydd hawl i ateb y cynigydd wedi'i ddirymu pan fydd yn ailddechrau.

Ymddygiad Afreolus

33. **a) Mae'n rhaid i bob aelod ddilyn y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor, y mae copi ohono ynghlwm wrth y Rheolau Sefydlog hyn.**
- b) Ni chaiff unrhyw aelod mewn cyfarfod ddiystyru dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus, rhwystro busnes yn fwriadol nac ymddwyn yn afreolaidd, tramgwyddus, amhriodol neu **mewn modd sy'n rhoi enw drwg i'r Cyngor.**
- c) Os yw aelod, ym marn y Cadeirydd, wedi torri darpariaethau paragraff (b) o'r Rheol hon, bydd y Cadeirydd yn mynegi'r farn honno i'r Cyngor ac wedyn caiff unrhyw aelod gynnig nad yw'r aelod a enwyd yn cael ei glywed rhagor neu fod yr aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod, a bydd y cynnig, os caiff ei eilio, yn cael ei roi ar unwaith a hynny heb drafodaeth. **Os yw aelod yn credu'n rhesymol fod aelod arall yn torri'r cod ymddygiad, mae'n ddyletswydd ar yr aelod hwnnw adrodd am hyn i'r Comisiynydd Lleol (Cymru).**
- d) Os nad ufuddheir i'r naill gynnig y soniwyd amdano ym mharagraff (c), caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod neu gymryd camau pellach y gall fod angen eu gorfodi'n rhesymol.

Hawl i Ateb

34. Bydd gan y sawl sy'n cynnig penderfyniad yr hawl i ateb ar unwaith cyn rhoi'r penderfyniad i bleidlais. Os cynigir gwelliant bydd hawl gan gynigydd y gwelliant ateb ar unwaith cyn rhoi'r gwelliant i bleidlais. Ni fydd aelod sy'n arfer hawl i ateb yn cyflwyno mater newydd. Ar ôl arfer neu ildio'r hawl i ateb, ceir pleidlais heb drafodaeth bellach.

Newid Penderfyniad

35. Caiff aelod, gyda chaniatâd ei eiliwr, gynnig gwelliannau i'w benderfyniad ei hun.

Dirymu Penderfyniad Blaenorol

36. a) Ni fydd penderfyniad (boed hwnnw'n gadarnhaol neu'n negyddol) y Cyngor yn cael ei wrthdroi cyn pen chwe mis heblaw naill ai drwy benderfyniad arbennig, y mae hysbysiad ysgrifenedig ohono'n cynnwys enwau o leiaf pum (5) aelod o'r Cyngor, neu drwy benderfyniad a gynigir yn unol ag adroddiad neu argymhelliad pwyllgor.
- b) Pan fydd penderfyniad arbennig neu unrhyw benderfyniad arall a gynigir o dan ddarpariaethau paragraff (a) o'r Gorchymyn hwn wedi'i waredu, ni cheir cynnig

unrhyw benderfyniad tebyg cyn pen chwe mis pellach.

Pleidleisio ar Benodiadau

37. Os enwebwyd mwy na dau berson am unrhyw swydd i'w llenwi gan y Cyngor ac nad oes mwyafrif diamod o blaid un person o'r pleidleisiau a roddwyd, bydd enw'r person â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu o'r rhestr a bydd pleidlais newydd yn cael ei chynnal, ac yn y blaen nes bydd mwyafrif pleidleisiau o blaid un person.

Trafodaethau a Phenderfyniadau sy'n Effeithio ar Weithwyr y Cyngor

38. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi mewn cyfarfod sy'n gysylltiedig â phenodi, ymddygiad, hyrwyddo, diswyddo, cyflog neu amodau gwasanaeth unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni chaiff ei ystyried nes bod y Cyngor neu'r pwyllgor (beth bynnag yw'r achos) wedi penderfynu a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd neu beidio. (Gweler Rheol Sefydlog Rhif 63.)

Penderfyniadau ar Wariant

39. Bydd unrhyw benderfyniad (sy'n cael ei gynnig heblaw yn unol ag argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid neu bwyllgor arall ar ôl argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid) a fyddai, pe byddai'n cael ei dderbyn, ym marn y Cadeirydd, yn cynyddu'n sylweddol y gwariant ar unrhyw wasanaeth sydd o dan reolaeth y Cyngor neu'n lleihau'r refeniw sydd ar gael i unrhyw bwyllgor, neu a fyddai'n cynnwys gwario cyfalaf, yn cael ei ohirio heb drafodaeth, pan gaiff ei gynnig a'i eilio, i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor, a bydd unrhyw bwyllgor y mae'n effeithio arno yn ystyried a yw'n dymuno adrodd amdano (a bydd y Pwyllgor Cyllid yn adrodd am yr agwedd ariannol ar y materion).

Gwariant

40. **Bydd pob gwariant yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, sydd ynghlwm wrth y rheolau sefydlog hyn.**

Selio Dogfennau

41. a) Ni chaiff dogfen ei selio ar ran y Cyngor oni awdurdodwyd ei selio drwy benderfyniad.
- b) Caiff unrhyw ddau aelod o'r Cyngor a enwyd mewn penderfyniad a gynigiwyd o dan ddarpariaethau paragraff (a) o'r Gorchymyn hwn selio, ar ran y Cyngor, unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn gofyn y caiff ei chyhoeddi o dan sêl.

Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau

42. Caiff y Cyngor yn ei Gyfarfod Blyneddol benodi bwyllgorau sefydlog ac, ar unrhyw adeg, benodi pwyllgorau eraill fel sydd eu hangen, ond yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth statudol yn y lle hwnnw:
- a) Ni chaiff benodi unrhyw aelod o bwyllgor er mwyn dal swydd yn ddiweddarach

na'r Cyfarfod Blynnyddol nesaf.

b) Caiff benodi pobl heblaw aelodau o'r Cyngor i unrhyw Bwyllgor; a

c) yn amodol ar ddarpariaethau Rheol Sefydlog 36 uchod, caiff ar unrhyw adeg ddiddymu neu newid aelodaeth pwyllgor.

43. Bydd y Maer a'r Dirprwy Faer, yn rhinwedd eu swydd, yn aelodau pleidleisio o bob pwyllgor, oni fyddant yn arwyddo nad ydynt yn dymuno gwasanaethu.

44. Bydd pob pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf cyn symud ymlaen i unrhyw fusnes arall yn ethol Cadeirydd a chaiff ethol Is-gadeirydd a fydd yn ei swydd hyd Cyfarfod Blynnyddol nesaf y Cyngor, a bydd yn cytuno ar ei raglen o gyfarfodydd am y flwyddyn.

Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor

45. Caiff Cadeirydd pwyllgor neu'r Maer alw cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor hwnnw ar unrhyw adeg. Caiff cyfarfod ychwanegol ei alw hefyd ar gais ysgrifenedig gan nid llai na chwarter aelodau'r pwyllgor. Bydd yr alwad yn nodi'r busnes i'w ystyried yn y cyfarfod arbennig ac ni cheir trafod unrhyw fusnes arall yn y cyfarfod hwnnw.

Is-bwyllgorau

46. Caiff pob pwyllgor benodi is-bwyllgorau at ddibenion i'w nodi gan y pwyllgor.

47. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor yn aelodau o bob is-bwyllgor a benodir ganddynt oni fyddant yn arwyddo nad ydynt eisiau gwasanaethu.

48. Heblaw lle gorchmynnir gan y Cyngor yn achos pwyllgor, neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor priodol yn achos is-bwyllgor, bydd cworwm pwyllgor neu is-bwyllgor yn hanner ei aelodau. Gall Aelod Cyngor o Bwyllgor benodi Aelod Cyngor arall i fynychu ar ei ran.

49. Bydd y Rheolau Sefydlog ar reolau dadlau (ac eithrio'r rhannau hynny sy'n gysylltiedig â sefyll a siarad fwy nag unwaith) a'r Rheol Sefydlog ar fuddiannau aelodau mewn contractau a materion eraill yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgor.

50. Pwyllgorau Cynghori

a) Caiff y Cyngor greu pwyllgorau cynghori, y nodir enw a nifer yr aelodau a'r cyrff i'w gwahodd i enwebu aelodau.

b) Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i aelodau pob pwyllgor cynghori am gylch gorchwyl y pwyllgor.

c) Caiff pwyllgor cynghori wneud argymhellion a rhoi gwybod i'r Cyngor am hynny.

d) Caiff pwyllgor cyngori gynnwys pobl heblaw aelodau o'r Cyngor i gyd.

Pleidleisio mewn Pwyllgorau

51. a) Bydd aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau y mae hawl ganddynt bleidleisio yn pleidleisio drwy godi llaw, neu, os bydd o leiaf dau aelod yn gofyn am wneud, drwy bleidlais gudd.

b) Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, bydd Cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

Presenoldeb Pobl Heblaw Aelodau Pwyllgor mewn Cyfarfodydd Pwyllgor

52. Caiff aelod sydd wedi cynnig penderfyniad, a gyfeiriwyd at unrhyw bwyllgor nad yw'n aelod ohono, egluro ei benderfyniad i'r pwyllgor ond ni chaiff bleidleisio.

Cyfrifon a Datganiad Ariannol

53. Bydd pob gweithdrefn ariannol yn cael ei chynnal yn unol â rheoliadau Ariannol y Cyngor, sydd ynghlwm wrth y rheolau sefydlog hyn.

Buddiannau

54. **Os oes gan aelod fudd personol fel y'i diffinnir gan y Cod Ymddygiad a fabwysiadir gan y Cyngor mae'n rhaid i'r aelod ddatgan y budd hwnnw a phenderfynu aros neu adael.**

55. **Efallai bydd angen i'r Clerc lunio a chadw cofrestr o fuddiannau aelod yn unol â chytundeb a lunnir â Swyddog Monitro'r Awdurdod Cyfrifol a/neu fel sy'n ofynnol gan statud.**

56. Os yw ymgeisydd am unrhyw benodiad o dan y Cyngor yn gwybod ei fod yn perthyn i unrhyw aelod o'r Cyngor neu ddeiliad unrhyw swydd o dan y Cyngor, bydd yr ymgeisydd â'r person y mae'n perthyn iddo yn datgelu'r berthynas yn ysgrifenedig i'r Clerc. Os bydd ymgeisydd yn methu gwneud hynny, caiff ei anghymwysu am benodiad felly, ac os caiff ei benodi, gellir ei ddiswyddo heb rybudd. Bydd y Clerc yn adrodd i'r Cyngor neu i'r pwyllgor priodol am unrhyw ddatgeliad felly. Os datgelir perthynas ag aelod, bydd Rheol Sefydlog 54 yn berthnasol fel sy'n briodol.

57. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ddiben Rheol Sefydlog 56.

Canfasio Aelodau ac Argymhellion gan Aelodau

58. a) Bydd canfasio aelodau'r Cyngor neu unrhyw bwyllgor, yn uniongyrchol neu beidio, am unrhyw benodiad o dan y Cyngor yn anghymwysu'r ymgeisydd am benodiad felly. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ddiben yr is-baragraff hwn o'r Rheol Sefydlog hon.

b) Ni fydd aelod o'r Cyngor nac unrhyw bwyllgor yn ceisio i unrhyw un unrhyw

benodiad o dan y Cyngor nac yn argymhell unrhyw un am benodiad felly nac am ddyrchafiad; serch hynny, caiff unrhyw aelod felly roi tystlythyr ysgrifenedig o allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd i'w gyflwyno i'r Cyngor gyda chais am benodiad.

59. Bydd Rheolau Sefydlog Rhifau 56 a 58 yn berthnasol i dendrau petai'r person yn gwneud y tendr yn ymgeisydd am benodiad.

Archwilio Dogfennau

60. Caiff aelod, at ddiben ei ddyletswydd fel y cyfryw (ond nid fel arall), archwilio unrhyw ddogfen yn eiddo'r Cyngor neu bwyllgor, ac os oes copïau ar gael cyflenwir copi iddo, ar gais, at yr un diben.

- 61. Bydd yr holl gofnodion a gedwir gan y Cyngor a chan unrhyw bwyllgor yn agored i unrhyw aelod o'r Cyngor eu harchwilio.**

Gweithgareddau Anawdurdodedig

62. Ni chaiff unrhyw aelod o'r Cyngor nac unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor yn enw'r Cyngor nac ar ran y Cyngor:

a) Archwilio unrhyw dir neu safle y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w archwilio; na

b) Rhoi gorchmynion, cyfarwyddiadau neu gyfeiriadau oni awdurdodwyd iddo wneud hynny gan y Cyngor neu'r pwyllgor neu is-bwyllgor perthnasol.

Derbyn y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfodydd

- 63. Caiff y cyhoedd a'r wasg eu derbyn i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, a gaiff, fodd bynnag, wahardd y cyhoedd a/neu'r wasg dros dro drwy fodd y penderfyniadau canlynol:**

"O ystyried natur [arbennig] [cyfrinachol] y busnes sydd ar fin cael ei drafod, cynghorir er lles y cyhoedd y dylid gwahardd y wasg a/neu'r cyhoedd dros dro ac fe'u cyfarwyddir i adael"

64. Bydd y Cyngor yn datgan y rheswm arbennig neu gyfrinachol dros wahardd y wasg a/neu'r cyhoedd o gyfarfod.

65. Yn holl gyfarfodydd y Cyngor caiff y Cadeirydd fel y gwêl yn ddoeth ac ar amser cyfleus wrth drafod busnes, ohirio cyfarfod er mwyn rhoi'r cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd annerch y cyfarfod mewn perthynas â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod hwnnw.

66. Bydd y Clerc yn darparu i'r wasg gyfleusterau rhesymol i gymryd eu hadroddiad o unrhyw drafodion y mae hawl ganddynt fod yn bresennol ynddynt. Ni fydd unrhyw recordio sain na fideo na ffotograffau o'r cyfarfod heb gymeradwyaeth glir y Cyngor.

67. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion mewn unrhyw gyfarfod, caiff

y Cadeirydd, ar ôl rhoi rhybudd, orchymyn ei fod yn gadael y cyfarfod a chaiff ohirio'r cyfarfod am ba bynnag gyfnod sydd ei angen i gael trefn yn ôl.

Busnes Cyfrinachol

68. a) Ni fydd unrhyw aelod o'r Cyngor nac unrhyw aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor yn datgelu i unrhyw un nad yw'n aelod o'r Cyngor unrhyw fusnes y datganwyd ei fod yn gyfrinachol gan y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor beth bynnag yw'r achos.
- b) Bydd unrhyw aelod sy'n torri darpariaethau paragraff (a) o'r Rheol Sefydlog hon yn cael ei ddiarddel o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor y Cyngor gan y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

69. (a) Bydd Clerc y Dref, cyn gynted ag y bydd yn ei gael, yn nodi mewn llyfr a gedwir at ddiben manylion canlynol pob cais cynllunio a hysbysir i'r cyngor:

- i) Dyddiad ei dderbyn
- ii) Enw'r ymgeisydd
- ii) Y man mae'n cyfeirio ato
- (iv) Crynodeb o natur y cais

(b) Bydd y Clerc yn cyfeirio pob cais cynllunio a geir at y Cyngor neu'r Pwyllgor Cynllunio. Bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyfeirio at y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Cynllunio os ydynt yn perthyn i un o'r categorïau canlynol;

- o Datblygiadau preswyl o 5 annedd neu fwy neu dros un chwarter hectar.
- o Adeilad â lle llawr o 500 metr sgwâr neu fwy neu mae ardal y safle'n hanner hectar neu fwy.
- o Datblygiadau mwynau.
- o Datblygiadau gwastraff.

Materion Ariannol

70. Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo Rheoliadau Ariannol a luniwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol.

a) Bydd Rheoliadau felly'n cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:

- i) cofnodion a systemau cyfrifyddu rheolaeth fewnol;
- ii) asesu a rheoli risgiau a wynebir gan y Cyngor;
- iii) gwaith yr Archwilydd Mewnol a derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilydd Mewnol y bydd eu hangen o leiaf bob blwyddyn;
- iv) gofynion adrodd ariannol aelodau ac etholwyr lleol a
- v) pholisïau caffael (yn amodol ar (b) isod) gan gynnwys gosod gwerthoedd ar gyfer gwahanol weithdrefnau gan ddibynnu ar amcangyfrif o werth contract

b) Bydd unrhyw contract arfaethedig am gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a gwneud gwaith yr amcangyfrifir ei fod yn werth mwy na £5,000 yn cael ei gaffael ar sail tendr ffurfiol fel y crynhoir yn (c) isod.

c) Bydd unrhyw broses dendro ffurfiol yn cynnwys y camau canlynol:

- i. bydd manyleb yn cael ei llunio o'r nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a'r gwaith i'w wneud;
- ii. caiff tendrau eu hanfon, mewn amlen wedi'i marcio dan sêl, at y Clerc erbyn dyddiad ac amser a nodwyd;
- iii. caiff tendrau a gyflwynir eu hagor, ar ôl y dyddiad ac amser cau a nodwyd, gan y Clerc ac o leiaf un aelod o'r Cyngor;
- iv. caiff tendrau eu hasesu wedyn a'u hadrodd i gyfarfod priodol y Cyngor neu Bwyllgor.

d) Nid oes yn rhaid i'r Cyngor, nac unrhyw Bwyllgor, dderbyn y tendr, amcangyfrif neu ddyfynbris isaf. Bydd unrhyw hysbysiad tendr yn cyfeirio at Reolau Sefydlog 56, 58 a 59 ynghylch gweithgarwch amhriodol.

e) Bydd Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn destun adolygiad rheolaidd, o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Rheol Sefydlog ar Contractau

71. Bydd pob contract yn cael sylw yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, sydd ynghlwm wrth y Rheolau Sefydlog hyn.

Cod Ymddygiad ar Gwynion

72. Bydd y Cyngor yn ymdrin â chwynion am gamweinyddu honedig gan y Cyngor neu unrhyw swyddog neu aelod mewn dull fel y mabwysiadir gan y Cyngor heblaw'r cwynion hynny y dylid eu cyfeirio'n briodol at y Comisiynydd Lleol (Cymru) i'w hystyried.

Amrywio, Dirymu a Gohirio Rheolau Sefydlog

73. Caiff unrhyw neu bob rhan o'r Rheolau Sefydlog ac eithrio'r rheini a argraffwyd mewn **teip bras** eu gohirio drwy benderfyniad mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol o fusnes.
74. Bydd penderfyniad yn barhaol i ychwanegu, amrywio neu ddirymu Rheol Sefydlog, pan gaiff ei gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth hyd gyfarfod arferol nesaf y Cyngor.

Rheolau Sefydlog i'w Rhoi i Aelodau

75. Bydd copi o'r Rheolau Sefydlog hyn yn cael ei roi i bob aelod gan y Clerc pan fydd yr aelod yn dosbarthu datganiad derbyn swydd iddo ac ymrwymiad ysgrifenedig i ddilyn y Cod Ymddygiad a fabwysiadir gan y Cyngor.

76. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r polisiau canlynol a bydd pob Cynghorydd a gweithiwr yn dilyn y polisiau hyn. Bydd pob polisi'n cael ei fonitro gan aelod dynodedig o'r Cyngor a fydd yn adrodd am ei fonitro yn y Cyfarfod Blynyddol Statudol

- Cynllun Cyhoeddi
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Disgyblu a Chwyno
- Polisi Amgylcheddol
- Polisi Gosodiadau
- Polisi Cwynion